Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Gwaith cynnal a chadw yn y swyddfa

*06/08/2012*

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 28 Mehefin 2012, pan wnaethoch ofyn:

*Gofynnaf ichi gyhoeddi cofnod o waith adnewyddu a chostau cynnal a chadw yng nghyswllt y swyddfeydd a ganlyn ar drydydd llawr Tŷ Hywel, a hynny ers mis Medi 2009.*
** B3.07, B3.08, B3.11, B3.12, B3.14, C3.02, C3.03, C3.04.*

** Ym mhob achos, gofynnaf ichi nodi rhif yr ystafell, manylion y gwaith a wnaed (ee tynnu wal, ailstrwythuro, unrhyw waith arall o ran cynnal a chadw swyddfa), y dyddiad y gwnaed y gwaith, cost y gwaith, a'r rheswm dros wneud y gwaith.*

Gweler y cofnod a ganlyn o'r gwaith a wnaed ers mis Medi 2009 mewn perthynas â'r swyddfeydd yr ydych wedi'u rhestru.

| Ystafell | Disgrifiad | Dyddiad | Cost |
|---|---|---|---|
| B3.12 | Trwsio clicied ffenestr a oedd wedi malu. | 12/08/2011 | Gwnaed y tasgau hyn fel rhan o waith cynnal a chadw ehangach. O ganlyniad, nid yw'r cyflenwr yn darparu manylion y costau fesul tasg ym mhob ystafell, ac felly nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon. |
| C3.03 | Symud socedi erial a thrydan | 08/08/2011 | |
| C3.02 | Trwsio ffenestr a oedd wedi torri. | 18/01/2012 | |
| C3.02 | Gosod a symud bocsys llawr er mwyn ailgyflunio desgiau (gweler isod) | 10/03/2012 | Gwnaed hyn hefyd fel rhan o waith cynnal a chadw ehangach, ac felly ni ellir canfod yr union gost. |
| C3.02 | Ailgyflunio desgiau i greu lle i ragor o aelodau staff yn y swyddfa. | 12/03/2012 a 14/03/2012 | £3,913 |


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8215
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'r cofnod olaf ar y log yn nodi'r costau sy'n ymwneud â gwaith angenrheidiol i ailgyflunio ystafell fel y gallai gynnwys tri man gweithio ychwanegol, a fyddai'n gwella hyblygrwydd ac effeithlonrwydd y modd y defnyddir y gofod. Heb addasu'r ystafell, ni fyddai lle ar gyfer yr aelodau staff ychwanegol. Prynwyd y desgiau drwy gytundeb dodrefn Comisiwn y Cynulliad (cyfanswm cost y desgiau yw £3,017). Eiddo Comisiwn y Cynulliad ydynt, a thrwy gydol bywyd yr asedau hyn byddant ar gael i'r Cynulliad eu defnyddio, yn ôl yr angen.  Yn yr un modd, tynnwyd nifer o ddodrefn o swyddfeydd C3.02 ac C3.03 i'w defnyddio mewn swyddfeydd eraill ar ystâd y Cynulliad, gan gynnwys cypyrddau llyfrau, cypyrddau ffeilio, cypyrddau arferol, a chwpwrdd gwydr i arddangos eitemau.

Hefyd, yn ystod y diddymiad yn 2011, ymgymrodd Comisiwn y Cynulliad â rhaglen waith i ailgarpedu ac ailbaentio holl swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad, er mwyn paratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.  Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Jonathan Thomas**
**Swyddog Rhaglenni: Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/help/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**